Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Peilot Arolwg Llais y Dysgwr: Adroddiad Technegol – Crynodeb Gweithredol

Cynhyrchwyd gan IFF Research

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd | This document is also available in English

www.medr.cymru

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

1 Geirfa....3
2 Crynodeb Gweithredol....6

1 Geirfa

Term	Diffiniad
Adroddiad ar y Prif Ganfyddiadau	Adroddiad ar wahân sy'n cyflwyno canfyddiadau allweddol yr arolwg, ar wahân i'r adroddiad technegol.
Addysg Bellach (AB)	Addysg ôl-orfodol a hyfforddiant sy'n digwydd ar ôl yr ysgol uwchradd a thu allan i addysg uwch.
Arolwg Prif Gam	Arolwg Llais y Dysgwr a gyflwynir yn genedlaethol yn dilyn y cyfnod peilot.
Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)	Y gronfa ddata weinyddol sy'n cynnwys cofnodion dysgwyr, rhaglenni dysgu a gweithgareddau dysgu a ddefnyddir ar gyfer cyfateb, pwysoli a dadansoddi yn yr arolwg.
Cyfateb Byw	Y broses lle mae manylion y dysgwyr a gofnodwyd wrth i'r arolwg gael ei gwblhau yn cael eu cyfateb ar unwaith â chofnodion Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) fel bod modd mewnforio gwybodaeth ddemograffig a chyrsiau yn awtomatig.
Cyfateb Ôl-weithredol	Proses a gynhelir ar ôl y gwaith maes sy'n cysylltu ymatebion arolwg â chofnodion wedi'u diweddaru Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru gan ddefnyddio manylion y dysgwyr a ddarparwyd yn yr arolwg.
Cyfradd Cyfateb	Cyfran yr ymatebion i'r arolwg a gysylltwyd yn llwyddiannus â chofnodion dysgwyr yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.
Cyfradd Ymateb	Cyfran y dysgwyr cymwys sy'n cwblhau'r arolwg.
Cyfwng Hyder	Mesur o gywirdeb ystadegol sy'n dangos ym mha ystod y mae canlyniad gwirioneddol y boblogaeth yn debygol o fod.
Dangosfwrdd Byw	Dangosfwrdd sy'n cael ei ddiweddaru yn ystod y gwaith maes i ganiatáu i ddarparwyr fonitro'r gyfranogaeth yn yr arolwg a'r ymatebion i'r arolwg mewn amser real.
Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg / Iaith Gymraeg	Cyfleoedd i ddysgwyr astudio, hyfforddi neu dderbyn cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.
Darparwr	Sefydliad sy'n darparu darpariaeth AB, Dysgu Oedolion yn y Gymuned neu

	brentisiaeth ac sy'n cymryd rhan yn yr arolwg.
Dull y Cyfrifiad	Math o arolwg sydd wedi'i gynllunio i wahodd pob dysgwr cymwys o fewn y boblogaeth darged yn hytrach na dewis sampl.
Dysgu Oedolion yn y Gymuned	Dysgu a ddarperir i oedolion, yn aml yn rhan amser, i gefnogi datblygiad personol, cymunedol, cymdeithasol neu ddatblygiad sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.
Hawdd ei Ddeall	Fformat hygyrch sy'n defnyddio testun symlach a delweddau cefnogol i helpu pobl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, llythrennedd isel neu lle mae'r Saesneg neu'r Gymraeg yn ail iaith.
Is-gontractwr	Sefydliad sy'n darparu darpariaeth ddysgu ar ran darparwr arweiniol.
Maint y Sylfaen	Nifer yr ymatebwyr i'r arolwg sydd wedi'u cynnwys mewn dadansoddiad neu is-grŵp penodol.
Prentisiaeth	Swydd â thâl gyda hyfforddiant. Mae prentisiaid yn ennill profiad, yn dysgu sgiliau newydd ac yn ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol gan hefyd ennill cyflog. Mae hyn yn cael ei gwblhau drwy fframwaith prentisiaeth, sy'n nodi'r rhaglen ddysgu a'r cymwysterau o lefel 2 hyd at lefel gradd.
Prif Gymhwyster	Ar gyfer dysgwyr AB llawn amser, gweithgaredd dysgu a nodwyd o fewn Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) fel prif gymhwyster yn rhaglen astudio'r dysgwr.
Profi Gwybyddol	Dull o ymchwilio ansoddol lle mae'r cyfranogwyr yn cwblhau cwestiynau arolwg gan egluro sut maen nhw'n dehongli ac yn ateb y cwestiynau. Mae hyn yn helpu i ddarganfod problemau gyda'r geiriad, y llwybro neu'r ddealltwriaeth.
Profion Arwyddocâd	Techneg ystadegol a ddefnyddir i benderfynu a yw gwahaniaethau rhwng canlyniadau arolwg yn debygol o adlewyrchu gwahaniaethau gwirioneddol yn y boblogaeth yn hytrach na digwydd ar hap.
Pryder Diogelu	Gwybodaeth sy'n nodi risg bosibl o niwed i ddysgwr neu berson arall a allai

	fod angen ei gymryd ymhellach drwy'r gweithdrefnau diogelu sefydledig.
Pwysau Arolwg	Y gwerth a neilltuwyd i ymateb arolwg yn ystod y pwysoli i wella pa mor gynrychioliadol o'r boblogaeth darged yw'r set ddata derfynol.
Pwysoli	Y broses ystadegol o addasu data arolwg fel bod proffil yr ymatebwyr yn adlewyrchu'r boblogaeth ddysgwyr ehangach yn well.
Pwysoli RIM	Dull a ddefnyddir i wneud canlyniadau arolwg yn fwy cynrychioliadol trwy addasu ymatebion fel bod sampl yr arolwg yn cyd-fynd â nodweddion hysbys y boblogaeth ehangach.
Rhag-godio	Opsiwn ateb sefydlog sydd wedi'i gynnwys mewn cwestiwn arolwg, yn hytrach nag ymateb a grëwyd trwy godio atebion penagored yn ddiweddarach.
Sylw Gair am Air	Ymateb testun agored dienw a ddarperir gan y dysgwr yn eu geiriau eu hunain.
Ystadegol Arwyddocaol	Canfyddiadau y profwyd nad ydynt wedi digwydd ar hap drwy wneud profion arwyddocâd. Mae pob canlyniad arwyddocaol ar lefel hyder o 95%.

2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Mae Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yng Nghymru, wedi comisiynu Arolwg Llais y Dysgwr i ddarparu sylfaen dystiolaeth genedlaethol ar brofiadau dysgwyr yn y sector addysg drydyddol yng Nghymru. Cynhaliodd IFF Research fersiwn beilot o'r arolwg yng Ngwanwyn 2026 i ragflaenu cam cyntaf yr arolwg cenedlaethol yn 2027. Nod y peilot oedd profi gweithrediad yr arolwg wrth gael ei ddarparu; asesu a yw'r arolwg yn gweithio'n effeithiol ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr a mathau o ddarpariaeth; profi prosesau cysylltu data a phwysoli; a gwerthuso a mireinio allbynnau'r adroddiad.

2.2 Roedd yr arolwg peilot yn cynnwys dysgwyr sydd mewn darpariaeth addysg bellach (AB), dysgwyr ar brentisiaethau, a rhai sy'n derbyn dysgu i oedolion yn y gymuned. Bydd peilot ar wahân ar gyfer chweched dosbarthiadau mewn ysgolion yn cael ei gynnal ar ôl cam cyntaf yr arolwg cenedlaethol.

2.3 Mae'r adroddiad technegol hwn yn canolbwyntio ar brosesau a gwersi'r peilot er mwyn llywio'r gwaith o fireinio a gwneud datblygiadau pellach i'r arolwg cyn ei lansio'n genedlaethol. Yn yr arolwg hwn, cyfeirir at y fersiwn o'r arolwg sy'n cael ei lansio'n genedlaethol fel yr arolwg "prif gam". Cyhoeddir canlyniadau'r arolwg peilot ar wahân yn yr adroddiad ategol, sef yr adroddiad ar y Prif Ganfyddiadau.

Samplu

2.4 Roedd yr holl ddysgwyr oedd yn dilyn cyrsiau AB, prentisiaethau, neu Ddysgu Oedolion yn y Gymuned gydag un o'r wyth darparwr a gymerodd ran yn y peilot ar adeg y gwaith maes (16 Ebrill i 15 Mai 2026) yn gymwys i gymryd rhan yn yr arolwg peilot. Dosbarthwyd yr arolwg drwy ddolen agored gan bob un o'r wyth darparwr. Ar ddechrau'r arolwg, gofynnwyd i ddysgwyr nodi eu cyfeirnod ID y Dysgwr (LN02) fel bod modd cyfateb eu cofnodion yn fyw â data o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR). Ar gyfer y rhai hynny oedd yn cyfateb, roedd hi'n bosibl tynnu manylion eu cyrsiau o'r LLWR, gan olygu bod modd gofyn cwestiynau penodol iddynt yn ymwneud â'u cyrsiau perthnasol (ar gyfer hyd at bedwar cwrs). Yn ogystal, nid oedd angen gofyn nifer o gwestiynau demograffig i'r dysgwyr hynny a gafodd eu cyfateb â'u cofnodion.

2.5 Defnyddiwyd ciplun o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ym mis Mawrth 2026 ar gyfer y peilot, gan mai dyma'r darn data mwyaf cyfredol oedd ar gael cyn i'r gwaith maes ddechrau. Ar y cyfan, roedd y cyfraddau cyfateb byw yn uchel ar gyfer y peilot (84%) ac roedd hyn o gymorth i wella profiad y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr arolwg.

2.6 Gan fod y darn o'r LLWR a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfateb byw wedi'i wneud cyn y gwaith maes, roedd newidiadau wedi digwydd yn y dysgwyr oedd wedi'u cofrestru rhwng pwynt y samplu a'r gwaith maes. Roedd hyn yn golygu na ellid cyfateb yn fyw gofnodion dysgwyr nad oeddent wedi'u hychwanegu at y LLWR erbyn dyddiad y ciplun, a dysgwyr a gofrestrodd ar ôl dyddiad y ciplun. Achosodd hyn rywfaint o rwystredigaeth i ddysgwyr oedd wedi nodi ID dysgwr dilys ond nad

oeddent yn cyfateb yn gywir, a rhywfaint o ddryswch ynghylch cymhwysedd. Ar y llaw arall, roedd dysgwyr yn y ffeil boblogaeth (oedd yn llywio'r niferoedd ymateb targed) nad oeddent bellach yn y ddarpariaeth erbyn i'r gwaith maes ddechrau. Achosodd hyn anawsterau i ddarparwyr wrth fonitro cyfraddau ymateb, gan nad oedd cyfanswm y dysgwyr a ddangoswyd yn nata'r LLWR oedd ar gael yn cyfateb bob tro â'u cofnodion. Ar gyfer yr arolwg prif gam, dylai canllawiau i ddarparwyr egluro'n well na fydd monitro cyfraddau ymateb byw yn adlewyrchu'r boblogaeth gymwys derfynol yn llawn, ac y bydd dysgwyr newydd yn cael eu cyfateb yn ôl-weithredol ac yn dal yn gymwys. Gellid hefyd archwilio'r posibilrwydd o dynnu'r darn o'r LLWR yn agosach at ddechrau'r gwaith maes – byddai hynny'n lleihau nifer y dysgwyr yr effeithir arnynt gan y mater hwn; fodd bynnag, byddai rhai dysgwyr yn dal i gael eu heithrio oherwydd yr angen i sicrhau digon o amser i brosesu'r sampl hon a'i llwytho i mewn i'r sgript ar-lein.

2.7 Tynnodd y peilot sylw hefyd at yr angen am drefniadau mwy eglur ar gyfer darpariaeth wedi'i his-gontractio. Dim ond cyrsiau lle'r oedd darparwyr y peilot yn brif gontractwyr oedd yn y darnau a dynnwyd o'r LLWR peilot; fodd bynnag, mewn gwirionedd, roedd y darparwyr wedi rhannu'r arolwg gyda'u carfannau dysgwyr llawn, gan gynnwys dysgwyr yr oeddent yn darparu darpariaeth iddynt fel is-gontractwyr, megis rhywfaint o ddarpariaeth prentisiaeth a ddarperir gan golegau AB. Nid oedd y dysgwyr hyn yn rhan o'r darn a dynnwyd o'r LLWR ac felly ni ellid eu pwysoli i darged o ran poblogaeth. Ar gyfer yr arolwg prif gam, bydd angen rhoi cyfarwyddiadau clir am brif ddarparwyr ac is-gontractwyr gan esbonio pwy ddylai ddosbarthu dolenni'r arolwg a pha ddolenni y dylid eu defnyddio, er mwyn sicrhau mai dim ond unwaith y cysylltir â dysgwyr gan ddefnyddio dolen arolwg y prif ddarparwr.

2.8 Wrth brosesu'r sampl, cymhwyswyd rheolau i gofnodion y LLWR i benderfynu pa gwrs neu gyrsiau y dylid eu cynnwys yn yr arolwg, hyd at uchafswm o bedwar fesul dysgwr. Gweithiodd hyn yn dda i'r rhan fwyaf o ddysgwyr; ond, nid oedd yn glir sut y dylid blaenoriaethu rhaglenni dysgu niferus, cydamserol ar gyfer dysgwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned a dysgwyr Addysg Bellach (AB) rhan amser, oherwydd y ffordd y caiff data eu cofnodi yn y LLWR. Arweiniodd hyn at ddewis rhai cyrsiau ar hap. Dylai fersiynau'r dyfodol archwilio newidynnau ychwanegol ar gyfer darganfod prif gymhwyster dysgwr. Roedd nifer bach o ddysgwyr AB amser llawn yn dilyn mwy na phedwar cwrs ar yr un lefel (gan arwain at ddewis 4 ohonynt ar hap). Bydd yr opsiwn o gynyddu nifer y cyrsiau fesul dysgwr yn cael ei adolygu cyn y prif gam; fodd bynnag, mae IFF yn nodi bod ailadrodd setiau o gwestiynau ar gyfer mwy na phedwar cwrs i bob dysgwr yn debygol o beri i ddysgwyr ddechrau blino ar y broses, ac o bosibl, achosi iddynt roi'r gorau i'r arolwg.

Dylunio'r holiadur

2.9 Cytunwyd ar feysydd pwnc yr holiadur gyda Medr, gan ystyried mewnbwn a gafwyd gan randdeiliaid, darparwyr a dysgwyr. Cafodd yr arolwg safonol ei adolygu dro ar ôl tro gan gydweithwyr polisi yn Medr, cyn cynnal profion

gwybyddol[1] gyda 44 o ddysgwyr o feysydd Addysg Bellach, prentisiaethau a Dysgu Cymunedol i Oedolion.

2.10 Datblygwyd fersiwn 'hawdd ei ddeall' o'r holiadur gan Easy Read UK, sefydliad arbenigol sy'n cynhyrchu dogfennau hawdd eu darllen a'u deall. Aethant ati i symleiddio geiriau'r holiadur safonol gan ddefnyddio delweddau ategol i wella hygyrchedd. Oherwydd cyfyngiadau ar amserlen y prosiect, cynhaliwyd profion gwybyddol ar yr arolwg hawdd ei ddeall cyn ac yn ystod cyfnod gwaith maes y peilot, yn hytrach na chwblhau'r broses cyn y lansiad. Mae angen cynnal profion gwybyddol pellach ar yr holiadur safonol a'r holiadur hawdd ei ddeall ac mae'r rhain wedi'u trefnu i ddigwydd cyn lansio prif gam yr arolwg.

2.11 Yn gyffredinol, mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod yr holiadur wedi gweithio'n dda. Ymgysylltodd y dysgwyr yn ystyrlon â'r arolwg, ac roedd digon o amrywiaeth yn yr ymatebion i awgrymu bod y dysgwyr yn rhoi atebion ystyriol. Roedd nifer yr atebion 'ddim gwybod' yn isel ar draws y rhan fwyaf o'r cwestiynau.

2.12 Felly, mae'r gwersi allweddol ar gyfer prif gam yr arolwg yn canolbwyntio ar fireinio wedi'i dargedu, yn hytrach nag ailgynllunio sylweddol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan fod yr arolwg eisoes yn cyfateb â'r hyd a dargedir, sef 10 munud. Ymhlith y gwelliannau a awgrymwyd mae ychwanegu cod "Dim angen gwelliannau" at y cwestiwn penagored sy'n gofyn beth, os oes unrhyw beth, y byddai'r dysgwr yn ei wella ynghylch eu darparwr (yn ogystal â'r cod presennol ar gyfer "Ddim yn gwybod"). Mae angen adolygu a phrofi pellach ar y cwestiynau sy'n ymwneud â darpariaeth yn yr iaith Gymraeg am eu bod wedi cael eu newid yn sylweddol cyn y lansiad heb brofion pellach, ac arweiniodd hyn at gyfran uwch o ymatebion niwtral, "Ddim yn gwybod" neu "Ddim yn berthnasol" yn yr arolygon safonol a'r rhai hawdd eu deall. Trwy gydol yr arolwg, mae angen asesu cwestiynau ymhellach i sicrhau eu bod yn berthnasol i'r rhai nad ydynt yn mynd i safleoedd darparwyr i wneud eu dysgu wyneb yn wyneb (neu sydd heb wneud hynny eto ar adeg yr arolwg). Dylid byrhau'r arolwg hawdd ei ddeall a'i adolygu i sicrhau bod y delweddau'n fwy addas. Yn benodol, dylid tynnu'r graffeg sy'n dangos bawd i fyny neu fawd i lawr, gan y gall y rhain gael eu hystyried yn dramgwyddus mewn rhai diwylliannau.

2.13 Er mwyn lleihau'r nifer o bobl sy'n rhoi'r gorau iddi ar ddechrau'r arolwg, gallai'r dudalen lanio, sy'n gofyn i ddysgwyr pa iaith maen nhw am ei defnyddio i gwblhau'r arolwg, gynnwys elfennau cymell ychwanegol i annog dysgwyr i gychwyn yr arolwg. Mae angen cyfarwyddiadau pellach lle gofynnir i ddysgwyr nodi eu rhif adnabod, gan gynnwys tawelu meddwl am gadw'r data'n ddienw a chanllawiau mwy eglur ar gyfer achosion lle na ellir gwirio ID dysgwyr dilys ar unwaith.

[1] Mae profi gwybyddol yn ddull profi mewn holiaduron ansoddol lle mae cyfranogwyr yn cwblhau cwestiynau arolwg gan hefyd egluro sut maen nhw'n deall y geiriad, yr opsiynau ymateb a'r cyfarwyddiadau, fel y gall ymchwilwyr nodi a mynd i'r afael â phroblemau dealltwriaeth neu lwybro posibl cyn lansio.

Proses sefydlu a dosbarthu'r arolwg

2.14 Cefnogwyd y darparwyr a gymerodd ran yn y peilot gyda gweminar briffio a chyfres gynhwysfawr o ddeunyddiau ategol, yn cynnwys dolenni'r arolwg a chodau QR, gwefan yr arolwg, templedi e-bost, posteri, pecynnau briffio, a fideo gyda chanllawiau i diwtoriaid a dysgwyr. Roedd y deunyddiau ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg ac fe'u cynlluniwyd i gefnogi darparwyr i hyrwyddo'r arolwg a sicrhau'r cyfranogiad gorau posib. Roedd y gweithwyr cyswllt ymroddedig yn IFF Research ar gyfer y darparwyr yn cynnig cefnogaeth barhaus drwy gydol y gwaith maes, a soniodd y rhan fwyaf o'r darparwyr am gymorth amserol ac effeithiol. Roedd yr adborth am y deunyddiau'n gadarnhaol ar y cyfan, yn enwedig o ran y pecynnau briffio PowerPoint a'r canllawiau a ddarparwyd.

2.15 Un o'r gwersi allweddol a ddysgwyd o'r peilot oedd pwysigrwydd derbyn deunyddiau'r arolwg yn brydlon. Adroddodd sawl darparwr eu bod wedi derbyn deunyddiau yn rhy agos at ddyddiad lansio'r arolwg, gan gyfyngu ar eu gallu i friffio staff a pharatoi cyfathrebiadau. Dylai arolygon y dyfodol ddarparu deunyddiau yn gynharach i ganiatáu digon o amser i baratoi.

2.16 Defnyddiodd y darparwyr amrywiaeth o ddulliau dosbarthu, gan gynnwys gwahoddiadau e-bost a chyfle i'w cwblhau yn yr ystafell ddosbarth. Arweiniodd hyrwyddo yn y dosbarth at y cyfraddau ymateb gorau ac roedd yn arbennig o werthfawr i ddysgwyr oedd wedi elwa o dderbyn cefnogaeth ychwanegol i ddeall a chwblhau'r arolwg. Er mai e-bost oedd y dull dosbarthu mwyaf cyffredin, roedd nifer fach o ddarparwyr hefyd wedi rhannu dolenni'r arolwg ar lwyfannau dysgu digidol fel Moodle.

2.17 Defnyddiwyd codau QR yn helaeth, gan ddarparu mynediad cyflym i'r arolwg. Adroddodd darparwyr fod codau QR yn arbennig o ddefnyddiol i'w harddangos yn yr ystafell ddosbarth.

2.18 Cyfeiriodd rai dysgwyr at broblemau gyda chael mynediad at yr arolwg neu ei gwblhau. Yr her fwyaf cyffredin oedd dod o hyd i rifau adnabod LN02 y dysgwyr a'u mewnbynnu a bydd canllawiau a chyfathrebu gwell ynglŷn â hyn ar gael ar gyfer arolygon y dyfodol.

2.19 Cefnogwyd hygyrchedd drwy gyfrwng y fersiynau hawdd eu deall o'r arolwg, holiaduron papur, ac amrywiaeth o ddulliau dosbarthu, gan alluogi darparwyr i gyrraedd amrywiaeth eang o grwpiau dysgwyr. Adroddodd nifer fach o ddarparwyr fod rhai o'u dysgwyr wedi'u heithrio oherwydd rhwystrau iaith. Bydd hyd at dair fersiwn iaith ychwanegol ar gael ar gyfer arolygon y dyfodol.

2.20 Codwyd nifer fechan o bryderon diogelu mewn ymatebion testun agored yn yr arolwg yn ystod y gwaith maes peilot. Ymdriniwyd â'r achosion hyn yn unol â gweithdrefnau diogelu sefydledig a hysbysiad preifatrwydd yr arolwg, a chafodd pryderon eu huwchgyfeirio lle'r oedd hynny'n briodol. Er mwyn lleihau achosion o ddefnyddio'r arolwg fel llwybr i adrodd ar faterion diogelu yn y dyfodol, bydd

cyfarwyddyd pellach yn cael ei gyflwyno sy'n cyfeirio dysgwyr at lwybrau priodol i adrodd ar faterion diogelu y tu allan i'r arolwg.

2.21 Rhoddwyd mynediad i ddarparwyr at ddangosfwrdd byw i fonitro cyfraddau cyfranogiad ac amseroedd cwblhau'r arolwg drwy gydol y gwaith maes, yn gyffredinol ac yn ôl is-gontractwr. Roedd y dangosfwrdd yn galluogi i ddarparwyr olrhain cynnydd drwy gydol y gwaith maes a thargedu cyfathrebiadau ychwanegol lle bo angen.

2.22 Adroddwyd am nifer fach o broblemau mynediad i'r dangosfwrdd byw (nid oedd gan unigolion y caniatâd angenrheidiol i weld y wefan) ond rhoddwyd mynediad yn gyflym. Byddai mabwysiadu model mynediad agored i ganiatáu rhannu un ddolen dangosfwrdd gydag is-gontractwyr a staff perthnasol yn helpu i symleiddio'r broses. Fel arall, mae angen cyfathrebu gwell i sicrhau bod modd darganfod pob unigolyn a fyddai angen mynediad cyn i'r gwaith maes gael ei lansio.

2.23 Canfu darparwyr fod y dangosfwrdd byw yn hawdd ei ddefnyddio ac roeddent yn gwerthfawrogi'r gallu i fonitro cyfraddau ymateb mewn amser real. Roedd y darparwyr yn awgrymu y byddai ychwanegu data ymateb fesul cwrs yn fuddiol er mwyn targedu negeseuon atgoffa pellach.

2.24 Ar y cyfan, dangosodd y cynllun peilot fod seilwaith yr arolwg, y trefniadau cymorth, a'r deunyddiau lledaenu'n effeithiol ac wedi cael derbyniad da gan ddarparwyr heb fod angen unrhyw newidiadau sylweddol i'r dull.

Prosesu data ac ansawdd data

2.25 Cyflawnodd y peilot gyfradd ymateb o 16% yn gyffredinol (o'i gymharu â tharged o 50%), a gwelwyd gwahaniaeth sylweddol rhwng y darparwyr. Roedd y lefelau ymateb yn arbennig o isel ymhlith dysgwyr rhan amser a phrentisiaid. Arweiniodd yr ymateb isel hwn at atal rhai tablau a chanlyniadau is-grŵpiau am fod y meintiau sylfaen mor isel. Mae ymateb isel hefyd yn cael effaith ar bwysoli'r arolwg, gan olygu bod angen pwysoli mwy ar gyfer ymatebion unigol (ac felly mwy o ystumio data). I liniaru'r effaith ar bwysoli, cafodd grwpiau oedran mwy manwl eu bandio i gategorïau ehangach, er bod hyn yn cyfyngu ar fanylder y dadansoddiad posibl. Roedd cyfraddau ymateb isel hefyd yn golygu na ellid cynnwys data dysgwyr rhan amser yn y strategaeth bwysoli ar gyfer dau ddarparwr AB gan nad oedd y sylfaen yn cyrraedd lefel addas ar gyfer cynrychioli'r grŵp hwn.

2.26 Ar gyfer yr arolwg prif gam, bydd angen canllawiau cliriach ar ddarparwyr ynglŷn â pham mae cyfraddau ymateb yn bwysig ar gyfer dadansoddi ac adrodd, gyda phwyslais penodol ar gyrraedd dysgwyr sydd â llai o amser cyswllt drwy weithgaredd ystafell ddosbarth wedi'i gynllunio neu dan arweiniad tiwtor.

2.27 Roedd cysylltu data LLWR byw yn agwedd allweddol ar ddylunio'r arolwg. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff **Error! Reference source not found.**, roedd hyn yn galluogi dysgwyr i hepgor cwestiynau demograffig ac ateb cwestiynau penodol i'r cwrs drwy gyfateb byw. Yn ystod y prosesu data, defnyddiwyd cyfateb ôl-

weithredol hefyd i gefnogi prosesau pwysoli'r arolwg. Roedd cyfateb byw â data LLWR yn gyffredinol effeithiol ac roedd y cyfateb ôl-weithredol wedi gwella'r gyfradd gyfateb gyffredinol ymhellach o 84% i 90%. Fodd bynnag, roedd y cyfraddau cyfateb terfynol yn amrywio'n sylweddol yn ôl y darparwr, am nad oedd y dysgwyr yn darparu cyfeirnodau ID neu fanylion personol y gellid eu defnyddio. Dangosodd y peilot fod angen rhoi mwy o bwyslais ar gwblhau'r meysydd cyfeirnod ID y dysgwr a manylion personol. Gellid archwilio'r syniad o ehangu'r ystod o feysydd ar gyfer cyfateb yn y dyfodol hefyd, er enghraifft gan ddefnyddio rhif ffôn.

Allbynnau adrodd

2.28 Profodd y peilot dri allbwn adrodd: dangosfwrdd canlyniadau ar-lein, pecyn sleidiau am ganfyddiadau a thablau data manwl. Ar y cyfan, mae adborth y darparwyr yn awgrymu y dylid cadw'r tri ar gyfer yr arolwg prif gam am eu bod yn diwallu anghenion gwahanol: roedd y dangosfwrdd yn cefnogi archwilio rhyngweithiol, roedd y pecyn sleidiau'n darparu crynodeb hygyrch i'w rannu'n fewnol, ac roedd y tablau data'n galluogi dadansoddiad mwy manwl. Felly, y brif flaenoriaeth yw peidio â disodli unrhyw allbwn sengl, ond gwneud y pecyn yn haws ei gyrchu, ei ddehongli a'i ddefnyddio.

2.29 Felly, dylai adrodd yn y dyfodol flaenoriaethu cyfathrebu mwy eglur ar sut i gyrchu a defnyddio'r dangosfwrdd a chanllawiau mewn iaith glir ar ddehongli tablau a chanfyddiadau data, gan gynnwys meintiau sylfaen a phrofion arwyddocâd.

2.30 Fel arfer, roedd darparwyr yn gwerthfawrogi data mwy manwl, gan eu bod eisiau defnyddio'r data i ddarganfod problemau ar lefel y cwrs, maes y cwricwlwm neu'r adran. Gellir defnyddio'r porth canlyniadau ar-lein i ymchwilio i ddata yn ôl ystod o is-grwpiau gan gynnwys campws, is-ddarparwr, math o gwrs a demograffeg dysgwyr. Dylai mireinio pellach ar y cyfrwng hwn ymchwilio i weld a fyddai grwpiau dadansoddi pellach (neu wahanol) yn fuddiol. Gallai'r gwaith datblygu hefyd ystyried gwneud y deunydd yn haws ei argraffu neu ei argraffu-i-PDF.

2.31 Roedd gan ddarparwyr awydd hefyd i dderbyn sylwadau gair am air di-enw, neu grynodebau o themâu testun agored cyffredin, lle gellir gwneud hyn heb beryglu anhysbysrwydd na gofynion diogelu.

Y camau nesaf

2.32 Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o argymhellion am ymgysylltu â darparwyr, cyfraddau ymateb, dyluniad yr arolwg, samplu, dadansoddi data ac adrodd. Bydd y rhain yn cael eu trafod a'u cytuno gyda Medr cyn y lansiad prif gam. Rhagwelir mân newidiadau i sgript yr arolwg, a bydd yr holl ddysgu o'r peilot yn llywio cam nesaf yr arolwg yn uniongyrchol.

2.33 Mae risgiau'n parhau, yn enwedig o ran lefelau isel o ymgysylltu â darparwyr, cyfraddau ymateb isel ac ymateb annigonol gan is-grwpiau, yn enwedig dysgwyr

rhan amser. Bydd y risgiau hyn yn parhau i gael eu hadolygu drwy gydol y paratoadau ar gyfer yr arolwg prif gam.

2.34 Bydd cam nesaf cyflwyno Arolwg Llais y Dysgwr yn arolygu pob dysgwr AB, Dysgu Oedolion yn y Gymuned a phrentisiaeth yng Nghymru. Disgwylir i'r gwaith maes hwn redeg rhwng diwedd mis Ionawr a mis Mawrth 2027.

2.35 Mae paratoadau ar y gweill hefyd i dreialu'r arolwg gyda chweched dosbarthiadau ysgolion a fydd yn cael ei gynnal yn 2027/28.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government